**Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn**

**(85)**

**Dydd Mawrth, 21 Medi 2004**

# AGENDA

**Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm**

**Eitem 1**
**Cynnig i ethol aelodau awdurdodau lleol i'r Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol**

**- TYNNWYD YNOL**
*NDM2084 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â pharagraffau 1(1) a 3 o Atodlen 11 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penodi'r aelodau canlynol o awdurdodau lleol i Gyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol Cymru.

**Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol (10 Cynrychiolydd)**

Y Cyngh. A Aldridge
Y Cyngh. J Hopkins
Y Cyngh. M Gravell
Y Cyngh. M Jones
Y Cyngh. R Berman
Y Cyngh. R Bright
Y Cyngh. B. Wellington
Y Cyngh D. Lloyd Evans
Y Cyngh. J James
Y Cyngh D. Bowen

**Y Cynghorau Cymuned (2 gynrychiolydd)**

Y Cyngh. M Stephens
Y Cyngh. A Guinn

**Yr Awdurdodau Tân (1 cynrychiolydd)**

Y Cyngh D Rees

**Awdurdodau’r Parciau Cenedlaethol (1 cynrychiolydd)**

Y Cyngh. S Watkins

**Awdurdodau'r Heddlu (1 cynrychiolydd)**

Mr J. Antoniazzi.

**Eitem 2**
**Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru**

Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 3**
**Cwestiwn Brys**
**Dai Lloyd (South Wales West);** Will the Minister for Health and Social Services make a statement on the future provision of paediatric neurosurgical services in Wales.

**Eitem 4**
**Datganiad Busnes**

Cliciwch yma i weld y Datganiad Busnes Drafft

**Eitem 5**
**Datganiad gan y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth: Asiantaeth Atgyweirio Awyrennau Amddiffyn (DARA), Saint Athan**

**Eitem 6**
**Cynnig i Ohirio Rheolau Sefydlog**
*NNDM2090 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 37.5, yn cytuno i atal y rhan honno o Reol Sefydlog 6.3 (iv) sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion ateb cwestiynau llafar o leiaf unwaith bob pedair wythnos pan fydd y Cynulliad yn cyfarfod mewn cyfarfod llawn i alluogi'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ateb cwestiynau llafar ar 6 Hydref 2004 a'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus i ateb cwestiynau am Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ar 13 Hydref 2004, a bod amseriad eu cwestiynau yn cael ei ad-drefnu wedi

hynny.

**Eitem 7**
**Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 -** ***Ni chyflwynwyd cynnig***
**Gorchymyn Deddf Dwr 2003 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2004**

***Cynnig i drafod y ddwy eitem a ganlyn ar y cyd, ond gan gynnal pleidlais ar wahân***
**Eitem 8**
**Rheoliadau Cyfrannau Cyllideb Ysgolion (Cymru) 2004**
*NDM2085 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Cyfrannau Cyllideb Ysgolion (Cymru) 2004, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Mehefin 2004.

***Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:***
**1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw ar y Gweinidog i sefydlu Grwp Trawsbleidiol i edrych ar y gwahaniaethau yn yr arian ar gyfer pob disgybl sy’n bodoli rhwng awdurdodau ac archwilio datblygu dull ariannu lefel sylfaen gyffredin.

*NDM2086 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Gorffennaf 2004, mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Rheoliadau Cyfrannau Cyllideb Ysgolion (Cymru) 2004; a

2. Yn cymeradwyo bod y Rheoliadau Cyfrannau Cyllideb Ysgolion (Cymru) 2004 yn cael eu gwneud yn unol â'r:
a) rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Mehefin 2004; a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Gorffennaf 2004.

***Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:***
***1.*** **Mike German (Dwyrain De Cymru); Peter Black (Gorllewin De Cymru); Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliant canlynol i'r rheoliadau drafft 'Rheoliadau Cyfrannau Cyllideb Ysgolion (Cymru) 2004', y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Mehefin 2004:

**Rheoliad 5 (2)**

dileu'r holl eiriau o "ailbenderfyniadau" ymlaen a rhoi yn eu lle:
i) ailbenderfyniadau,
ii) cywiro gwallau, neu
iii) taliad ychwanegol i ysgolion y mae eu nifer o ddisgyblion cofrestredig wedi cynyddu yn ystod y

flwyddyn y caiff cyfrannau eu dyrannu ar ei chyfer, o fwy na chanran neu nifer a bennwyd gan yr awdurdod addysg lleol, ond rhaid i'r swm hwnnw gael ei ddefnyddio at y diben hwnnw neu gael ei ddosbarthu i ysgolion cyn diwedd y flwyddyn ariannol honno.

**Rheoliad 8 (1)**

Dileu'r holl eiriau a rhoi yn eu lle:
Wrth benderfynu ar gyfrannau cyllideb ysgolion cynradd ac uwchradd ac ysgolion meithrin, rhaid i awdurdod addysg lleol seilio ei fformiwla ar naill ai

i) nifer cymedrig y disgyblion cofrestredig sydd yn yr ysgolion hynny neu a ragwelir fydd yn yr ysgolion hynny dros y cyfnod o dair blynedd, sef y flwyddyn y caiff y cyfrannau cyllideb eu cyfrifo ar ei chyfer, y flwyddyn flaenorol a'r flwyddyn ganlynol; neu
ii) nifer cymedrig y disgyblion cofrestredig sydd yn yr ysgolion hynny neu a ragwelir fydd yn yr ysgolion hynny ar gyfer y flwyddyn y caiff y cyfrannau cyllideb eu dyrannu ar ei chyfer, wedi'i phwysoli, os bydd yr awdurdod yn ystyried bod hynny'n briodol, yn unol â pharagraff (8).

**Rheoliad 8 (3)**

Dileu.

**Rheoliad 8 (4)**

Dileu.

**Rheoliad 8 (5)**

Dileu.

**Rheoliad 8 (7)**

Dileu'r holl eiriau a rhoi yn eu lle:

Rhaid i awdurdod ymgynghori â phenaethiaid ysgolion ac, at ddibenion paragraff (8)(1), rhaid gwneud hynny cyn amcangyfrif nifer y disgyblion cofrestredig mewn ysgol yn ystod y flwyddyn y caiff y cyfrannau cyllideb eu dyrannu ar ei chyfer a'r blynyddoedd canlynol.

**Rheoliad 16 (1)**

Dileu

**Rheoliad 16 (2)**

Dileu

**Rheoliad 16 (3)**

Dileu'r holl eiriau ar ôl 'rhannol' a rhoi yn eu lle:

unrhyw ostyngiad neu gynnydd yng nghyfran cyllideb yr ysgol am y flwyddyn ariannol flaenorol sy'n deillio o wahardd disgybl yn barhaol o'r ysgol neu dderbyn i'r ysgol ddisgybl a waharddwyd yn barhaol o ysgol arall a gynhelir

**Rheoliad 16 (4)**

Dileu

**Rheoliad 18 (1)**

Dileu

**Rheoliad 18 (2)**

Dileu

**Datganiad a wnaed yn unol â Rheol Sefydlog 24.16 (ii)**

**Diben**

Mae'r gwelliant yn newid sail yr elfen o gyllid ysgolion sy'n ymwneud â disgyblion o fod fesul blwyddyn i gyfartaledd dreigl o dair blynedd. Bydd hyn yn dal i olygu bod yr un swm o arian yn ariannu'r un nifer o ysgolion, ond yn sicrhau mwy o gysondeb o ran cyllid i holl ysgolion Cymru, ond yn arbennig i'r ysgolion llai a allai gael ergyd drom yn sgil nifer fach o ddisgyblion yn gadael gan effeithio'n fawr ar gyllid yr ysgol honno, o gymharu.

**Y Gost**

Nid oes unrhyw gost ychwanegol, ond gallai mwy o sicrwydd a chysondeb o ran cyllid arwain at lai o staff yn cael eu diswyddo neu'n cael eu cyflogi ar gontractau tymor byr a gan hynny arbed arian i ysgolion ac Awdurdodau Addysg Lleol o ran taliadau diswyddo a/neu gostau ailbenodi.

Cliciwch yma i weld Rheoliadau Cyfrannau Cyllideb Ysgolion (Cymru) 2004
Cliciwch yma i weld adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Cliciwch yma i weld yr Arfarniad Rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

**Eitem 9**
**Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Ariannol AALl) (Cymru) 2004**
*NDM2087 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Yn ystyried egwyddor y Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Ariannol Awdurdodau Addysg Lleol) (Cymru) 2004, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Gorffennaf 2004.

*NDM2088 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Gorffennaf 2004, mewn perthynas â'r rheoliadau drafft, Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Ariannol Awdurdodau Addysg Lleol) (Cymru) 2004; a

2. Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Ariannol Awdurdodau Addysg Lleol) (Cymru) 2004 yn cael eu gwneud yn unol ag:
a) y rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Gorffennaf 2004; a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Gorffennaf 2004.

Cliciwch yma i weld Rheoliadau Cyfrannau Cyllideb Ysgolion (Cymru) 2004
Cliciwch yma i weld adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Cliciwch yma i weld yr Arfarniad Rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

Eitem 10
**Dadl am Ymchwiliad CLYWCH**
*NDM2089 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu Adroddiad Ymchwiliad Clywch;

2. Yn cydnabod ymdrechion Peter Clarke a'i dîm yn cynnal Ymchwiliad Clywch; a

3. Yn cymeradwyo ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i argymhellion Clywch i sicrhau bod gwersi yn cael eu dysgu i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau canlynol at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:*
*(1)*
*(2)+(3)+(4)+(5)*
*(6)+(7)+(8)+(9)+(10)*

**1. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 1:
'ac yn galw am ymchwiliad llawn i unrhyw un a gysylltir ag esgeuluster wrth ymgymryd â'u dyletswyddau ac sy'n parhau i weithio o fewn y sector addysg.'

**2. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ym mhwynt 2 dileu 'Yn cydnabod' a rhoi yn ei le 'Yn llongyfarch'

**3. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ym mhwynt 2 ar ôl 'Ymchwiliad', rhoi 'ond yn gresynu at y ffaith y bydd y Mesur Plant, drwy beidio ag adlewyrchu dymuniadau pob plaid yn y Cynulliad hwn i gylch gwaith y Comisiynydd gael ei ymestyn i gynnwys gwasanaethau nad ydynt wedi'u datganoli, yn cyfyngu ar ei hyblygrwydd mewn ymchwiliadau yn y dyfodol'

**4. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ym mhwynt 3 dileu 'Yn cymeradwyo' a rhoi yn ei le 'Yn nodi'.

**5. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig
'Yn credu y dylai Llywodraeth y Cynulliad ymgymryd ag archwiliad blynyddol o ddull gweithredu argymhellion adroddiadau amddiffyn plant a gyhoeddwyd yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf a'i gyhoeddi.'

**6.Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw ar y Llywodraeth i gyflwyno adroddiad i'r Cyfarfod Llawn bob chwe mis ar yr holl argymhellion yn yr Adroddiad.

**7. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn ystyried cyfundrefn ymchwilio gyflym ac annibynnol mewn achosion lle ceir honiadau o gam-drin plant yn erbyn staff dysgu a staff nad ydynt yn dysgu.

**8. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw ar y Llywodraeth i sicrhau bod gwasanaethau cwnsela ar gael i bawb sy'n dioddef camdriniaeth rywiol.

**9. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw ar y Llywodraeth i ymchwilio gyda'r Cyngor Addysgu Cyffredinol (GTC) i'r posibilrwydd o estyn pwerau'r GTC i gynnwys materion amddiffyn plant mewn perthynas â'r Gofrestr Athrawon Cymwysedig.

**10. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn nodi nad yw CBAC fel cwmni preifat yn atebol i bobl Cymru.

*Gellir cael copïau dwyieithog o Adroddiad Ymchwiliad Clywch drwy'r ddolen gyswllt ganlynol http://www.childcom.org.uk/clywch/index.html*

*Cliciwch yma am ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i argymhellion Ymchwiliad Clywch..*

**Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben erbyn 5.30pm**

**…………………………………………..**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mercher, 22 Medi 2004**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**